

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 11eg 2018 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Jean Roberts, Arwel Davies, Geraint Davies, Huw Charles, Gwynfryn Williams a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Diogelu Data

Cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd yn y cwrs hyfforddiant a fynychodd y clerch ym mis Hydref. Adroddodd y clerch fod y Cyngor nawr wedi ei gofrestru gyda'r ICO a chytunwyd i arwyddo'r ffurflen debyd uniongyrchol i dalu'r tal aelodaeth yn flynyddol (£35). Roedd y wefan wedi cael ei diweddarau gyda'r hysbysiad priodol yn cynghori'r defnyddwyr fod y wefan yn defnyddio 'cookies'.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

- i) Triathlon Y Bala - cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod ym mis Tachwedd. Cytunwyd os oedd trefniadau priodol mewn lle i hysbysu'r cyhoedd o'r digwyddiad ac i reoli traffig yn ystod y digwyddiad nid oedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r bwriad o gynnal y digwyddiad eto eleni. Cytunodd Jean Roberts a Geraint Davies i fynychu'r cyfarfod ar y 19/12/18 i drafod y mater ymhellach.
- ii) Awdit eich Cyngor - cais gan aelodau'r Cynulliad i gwblhau holiadur i gael barn y Cyngor am y drefn archwilio sydd wedi cael ei orfodi ar Gynghorau Lleol dros y ddwy flynedd diwethaf.
- iii) Gwella Busnes a Moderneiddio – Gwahoddiad i weithdy i drafod 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' ar y 11/1/19.
- iv) Comisiwn Ffiniau – Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – copi o'r 'Adroddiad Argymhellion Terfynol'.
- v) Llywodraeth Cymru – Llythyr yn ein hysbysu o'r 'Swm Priodol o dan Adran 137o ddeddf Llywodraethol Leol 1972'.
- vi) Swyddfa Archwilio Cymru – Copi o'i adroddiad 'Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol'.
- vii) Cyngor Gwynedd – Rhaglen waith yr adran Priffyrdd ar gyfer mis Rhagfyr.
- viii) Cylch yr Iaith - copi o'i dogfen a oedd yn cyflwyno sylwadau ar dwristiaeth yng Ngwynedd gyda chais penodol yn ymwneud a pholisi twristiaeth y Cyngor Sir.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w gefnogi:-
NP5/72/83D – Gosod paneli solar ar do adeilad. Gwaith trin Dwr, Llidiardau.

vi) Materion Ariannol.

a) Archwiliad Blynnyddol.

Roedd y clerch wedi cysylltu'n ôl gyda BDO ynglŷn â'r materion a godwyd yn yr archwiliad a chafwyd manylion y dogfennau na chafwyd eu harwyddo gan y clerch a'r cadeirydd. Wrth i'r clerch edrych yn nol ar y deunydd a anfonwyd i'r archwilwyr roedd y dogfennau a restrwyd wedi cael eu cynnwys ar y ddogfen a arwyddwyd gan y clerch a'r cadeirydd. Hysbysebwyd BDO o hyn ond ni chafwyd unrhyw ymateb yn nol hyd yn hyn. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu ag Un Llais Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn ag anghysondeb y drefn archwilio a'r ffi uchel a godwyd eleni.

b) Cyllideb a Praesept 2019/20

Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc. Cytunodd y cynghorwyr yn unfrydol na fyddant yn hawlio unrhyw daliadau anorfodol ac y byddant yn dewis optio allan o hyn pan fyddai'r Panel Annibynnol Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol. Ychwanegwyd swm ar gyfer y taliadau gorfodol i aelodau'r Cyngor (hawlio ad-daliad costau gofal). Cynyddwyd y swm a glustnodwyd ar gyfer cyflog a chostau'r clerc (gweler pwynt vi a) uchod). Trafodwyd y swm o arian a gadwir wrth gefn a chytunwyd bod y swm yn ddigonol. Cytunwyd ar y gyllideb derfynol a phasiwyd i osod Praesept o £4,000 ar gyfer 2019-20.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Hyd-Rhag), TWE, Cyngor Cymuned Llandderfel (cyfraniad tuag at gost cwrs y clerc), Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol), BDO (archwiliad allanol).

ch) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Hosbis Tŷ'r Eos a Dawns i Bawb. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Priffyrdd.

i) Gwaith cynnal a chadw o flaen tai Tai'n Rhos, Parc - dechreuwyd y gwaith ym mis Tachwedd ac roedd y gweithlu wedi bod yn nol ac ymlaen ers hynny ac roedd pryder am ddiogelwch y cyhoedd gan fod perygl i rywun faglu.

ii) Ffordd wedi tyllu ger y twll archwilio ar ben rhiw Parc - i osgoi gwneud difrod i'w ceir wrth yrru drosto roedd cerbydau yn mynd i ganol y ffordd i'w osgoi ac roedd peryg iddynt fynd i mewn i lwybr cerbyd a oedd yn dod o'r cyfeiriad arall.

iii) Ffosydd o riw Parc i gyfeiriad Tŷ Du, Parc - roedd y ffosydd wedi tagu a'r dŵr yn llifo i'r ffordd ac yn creu tyllau.

iv) Culfet ger Tyddyn Tegid, Rhyduchaf - roedd pryder fod y ffordd yn dechrau rhoi gan fod y twll o dan y ffordd yn gwaethygu.

v) Darn o'r A494 ger mynwent Llanycil yn dechrau gostwng. Roedd y ffens rhwng y llyn a'r ffordd ger y safle eisoes wedi disgyn ac roedd pryder fod niwed yn cael ei wneud i'r ffordd oherwydd hyn. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau os oedd cynlluniau mewn lle i gryfhau'r ffordd a thrwsio'r ffens.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 12fed yn Neuadd Maesywaen am 8.00 y.h.